

## HALL, AUGUSTA, Arglwyddes Llanofer ('Gwenynen Gwent') (1802-1896), noddwraig diwylliant a dyfeisydd y wisg genedlaethol Gymreig

**Enw:** Augusta Hall

**Ffugenw:** Gwenynen Gwent

**Dyddiad geni:** 1802

**Dyddiad marw:** 1896

**Priod:** Benjamin Hall

**Plentyn:** Augusta Charlotte Elizabeth Jones (née Hall)

**Rhiant:** Georgina Mary Ann Waddington (née Port)

**Rhiant:** Benjamin Waddington

**Rhyw:** Benyw

**Galwedigaeth:** noddwraig diwylliant a dyfeisydd y wisg genedlaethol Gymreig

**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant

**Awdur:** Marion Löffler

Ganwyd Arglwyddes Llanofer ar 21 Mawrth 1802, yr ifancaf o chwe merch Benjamin Waddington (1749-1828), Tŷ Uchaf, Llanofer yn Sir Fynwy, a'i wraig Georgina (ganwyd Port, 1771-1850; gor-nith Mary Delaney, 1700-1788). Fel ei chworydd a fu fyw, Frances ac Emelia, derbyniodd Augusta Waddington addysg eang, gan gynnwys y clasuron, ieithoedd modern, hanes, daearyddiaeth, celf a cherddoriaeth, ond hefyd bynciau megis cadw tŷ ac economeg. Priododd y gwleidydd a'r diwygiwr [Benjamin Hall](#) ym 1823, gan uno stadau cyfagos Llanofer ac Aber-carn. Erbyn hyn yr oedd y teulu wedi teithio'n eang ym Mhrydain Fawr ac Ewrop, a'i chwaer Frances wedi priodi barwn Christian Charles Josiah von Bunsen, hanesydd, cennad Prwsia i lys y Frenhines Victoria 1838-1852, a Cheltgarwr.

Cafodd diddordeb Arglwyddes Llanofer yn yr iaith Gymraeg a thraddodiadau Cymru ei hybu'n gynnar gan gyfaill ei mam, y Foneddiges Elizabeth Coffin Greenly (1771-1839) o Titley Court, Sir Henffordd, gwraig rugl ei Chymraeg, noddwraig [Edward Williams](#) (lolo Morganwg) ac un o sefydlwyr Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni. Anodd dweud pa mor rugl ei Chymraeg oedd Arglwyddes Llanofer, ond ffafriodd gyflogi Cymry Cymraeg fel gweision, mynnodd wasanaethau Cymraeg yn eglwys Llanofer, a sicrhodd fod y Gymraeg yn cael ei dysgu yn nwy ysgol Llanofer. Er mwyn hybu addysg Gymraeg noddodd y Welsh Collegiate Institution yn Llanymddyfri o adeg ei sefydlu ym 1847, cynorthwyodd [Evan Jones](#) (Ieuan Gwynedd) yn ei waith o gychwyn y cylchgrawn merched *Y Gymraes*, a rhoddodd gefnogaeth ariannol i [Daniel Silvan Evans](#) pan oedd yn paratoi ei eiriadur aml-gyfrol. Gan gyfuno ei Phrotestaniaeth frwd â'i chariad at y Gymraeg, gwaddolodd ddwy eglwys Galfinaidd, capeli Rhyd-y-meirch ac Aber-carn, ble y cynhaliwyd gwasanaethau yn y Gymraeg, ond ar sail litwrgi y *Llyfr Gweddi Gyffredin*. Yn ffyddlon i'w hegwyddorion dirwestol, troes dafarndai'r ardal yn westai dirwestol. Yn anad dim, daeth Llys Llanofer, plasty Tuduraidd newydd y teulu, yn ganolbwynt diwylliannol Cymraeg yn sir Fynwy a thu hwnt, gan ddenu tramorwyr â diddordeb yn yr ieithoedd Celtaidd megis y Llydawyr Alex François Rio a Theodore de la Villemarqué, a'r Almaenwr Friedrich Carl Meyer, yn ogystal â chasglwyr ac ysgolheigion fel [Thomas Price](#) (Carnhuanawc), [Maria Jane](#)

[Williams, Lady Charlotte Guest](#), a [John Jones](#) (Tegid) a [John Williams](#) (ab Ithel). Cynyddodd nifer yr ymwelwyr ar ôl 1857, pan brynodd Arglwyddes Llanofwr gasgliad llawysgrifau [Edward Williams](#) (lolo Morganwg) oddi wrth ei fab [Taliesin Williams](#) (Taliesin ab Iolo) er mwyn ei ddiogelu i'r genedl.

Y mae cyfraniadau mwyaf arhosol Arglwyddes Llanofwr yn gysylltiedig â'r eisteddfodau a gynhaliwyd gan Gymdeithas Cymreigyddion y Fenni rhwng 1834 a 1853. O dan ddylanwad sefydlwyr megis y Foneddige Coffin Greenly a [Thomas Price](#) (Carnhuanawc), y daeth i'w adnabod yn 1826, ymunodd Arglwyddes Llanofwr â'r Cymreigyddion ym 1834, llai na thri mis wedi sefydlu'r gymdeithas. Cyd-drefnodd a noddodd gyfres o ddeg eisteddfod liwgar, yr adroddwyd yn helaeth amdanynt yn yr *Illustrated London News* a phapurau newydd Cymru, ac ariannodd gystadleuthau, yn enwedig ym meysydd canu'r delyn deires a thecstiliau Cymreig. Dan ei ddylanwad, noddodd aelodau eraill ei chylch gystadleuthau llenyddol ac ieithyddol a ddenai gyfranogiad rhyngwladol, o'r Almaen a Ffrainc gan mwyaf, ac a ddyfarnwyd gan ysgolheigion adnabyddus megis James Cowles Prichard a [Thomas Price](#) (Carnhuanawc). Felly datblygwyd gan Gymreigyddion y Fenni y traddodiad eisteddfodol a atgyfodasid yn y 1790au, a chynigient barhad iddi i'r 1850au; hybent ysgolheictod Cymreig ym meysydd llenyddiaeth, hanes ac ieithyddiaeth drwy'r cystadleuthau; hyrwyddent ganu'r delyn deires, gasglu a pherfformio cerddoriaeth Gymreig gynhenid; a hybent werthfawrogiad y diwydiant brethyn Cymreig. Yn Eisteddfodau'r Fenni hefyd ceir dechreuadau'r mudiad Pan-Geltaidd yng Nghymru. Sefydlwyd y Welsh Manuscripts Society gan aelodau Cymreigyddion y Fenni, yn eu plith Arglwyddes Llanofwr.

Arglwyddes Llanofwr oedd un o brif hyrwyddwyr y delyn deires fel offeryn cenedlaethol yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn delynores fedrus ei hun, atgyfododd y traddodiad o gadw telynor teulu drwy gyflogi [John Wood Jones](#) (1800-1844) o tua 1826, ei ddisgybl [Thomas Gruffydd](#) (1815-1887) y dywedir iddo hyfforddi deunaw telynor o 1844, ac yno ei ferch, Susannah Berrington Gruffydd Richards (1854-1952), a dderbyniodd gyflog misol fel athrawes y delyn gan y teulu y tu hwnt i farwolaeth Arglwyddes Llanofwr. Dros sawl degawd, rhoddwyd ysgoloriaethau i nifer o ddisgyblion i'w galluogi i ddysgu canu'r delyn yn Llanofwr. Gwnaethpwyd y delyn deires, neu'r delyn Gymreig, yn offeryn swyddogol Eisteddfodau'r Fenni gan Arglwyddes Llanofwr, a pharhaodd i gynnal cystadleuthau canu'r delyn deires yn Llanofwr ym 1863 a 1869, yn Abertawe ym 1883, ac fel rhan o 'eisteddfod brotest' Caerwys ym 1886. Hyd at ddiwedd ei hoes, noddwyd bron pob cystadleuaeth ganu'r delyn deires gan Arglwyddes Llanofwr, gan roi offerynnau gwerthfawr neu arian ar gyfer hyfforddiant yn wobrau. Gohebdd a chydweithiodd yn y maes gyda dynion megis [Henry Brinley Richards](#) a [Dr Joseph Parry](#). Comisiynodd offerynnau hefyd i'w roddi i delynorion haeddiannol, ond hefyd i'r bonedd, a hyd yn oed y Tywysog Albert ifanc, y cyflwynwyd telyn iddo a perfformiad arni ym Mhalas Buckingham yng Ngorffennaf 1843.

Yr oedd gwaith Arglwyddes Llanofwr yn hybu'r delyn deires yn rhan o'i chonsyrn dros barhad traddodiadau cynhenid fel rhan annatod o ddiwylliant cenedlaethol y Cymry. Cedwid traddodiadau'r Fari Lwyd a'r Plygain yn Llanofwr, a chystadlodd ei chôr, Cantorion Llanofwr, mewn eisteddfodau, a pherfformiodd ganeuon gwerin gartref ac yn Llundain. Bu'r dawnsfeydd a gynhaliwyd yn Llanofwr ar gyfer gweision ac eraill yn gyfrwng parhau traddodiad y ddawns werin Gymreig a chwalwyd bron yn llwyr gan Anghydfurfiaeth. Perfformir 'Ril Llanofwr' hyd heddiw. Cynorthwyodd, noddodd a chyfeiriodd y Foneddige Coffin Greenly ac Arglwyddes Llanofwr waith y casglwr alawon gwerin [Maria Jane Williams](#), Aberpergwm. Enillodd ei chasgliadau gystadlaethau Eisteddfodau'r Fenni ym 1837 a 1844. Cyhoeddwyd hwy fel *Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg* ym 1844, a diolch i ddylanwad Arglwyddes Llanofwr dros [Maria Jane Williams](#), yn ogystal â thros [Taliesin Williams](#) a [John Jones](#) (Tegid), yr ymddangosodd yr alawon gyda geiriau Cymraeg, yn hytrach na rhai Saesneg fel y bwriedai'r gasglwraig ifanc.

Deilliodd enw barddol Arglwyddes Llanofwr, 'Gwenynen Gwent', a'i ddylanwad parhaol dros ddyluniad y wisg Gymreig, o Eisteddfod Frenhinol a Gyl Gerddorol Dyfed a Mynwy, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Awst 1834. Enillodd gystadleuaeth y traethawd gorau ar 'The Advantages resulting from the Preservation of the Welsh Language and National Costumes of Wales'. Ar y cyd â'r albwm *National Costumes of Wales* a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac a briodolir iddi gan rai, ffurfient y sylfaen i'r wisg genedlaethol Gymreig i ferched a menywod a welir mewn dathliadau cenedlaethol megis Dydd Gyl Dewi. Gwisgai Arglwyddes Llanofwr y wisg Gymreig hon bob dydd Sul ac ar achlysuron cyhoeddus, roedd ei gweision yn gorfod ei gwisgo, a cheisiodd ei hybu ymhlith bonedd ei chylch, yn aflwyddiannus gan mwyaf. Ei nawdd i gystadlaethau am samplau'r wlanan neu'r brethyn gorau, wedi eu gweu neu eu lliwio yn y siec neu'r stribedi cenedlaethol, a gyflwynodd elfen o grefft i'r eisteddfod. Yn ei llyfr *Good Cookery ... and Recipes communicated by the Hermit of the Cell of St. Gover*, 1867, a drefnodd fel sgwrs rhwng teithiwr a meudwy Llanofwr am fwydydd a chwedlau Cymru, gwelir darluniadau o'i llaw yn dangos y bwyd, ac hefyd lluniau lliw o wisgoedd traddodiadol merched Cymru. Gan gofio dyled ei mam i Mary Delaney, golygodd *Autobiography and Correspondence of Mrs. Delaney* mewn chwe chyfrol a ymddangosodd ym 1861 a 1862.

Wedi'r ysgytwad o golli ei gŵr [Benjamin Hall](#) yn ddisymwth ym 1867, ac yn diflasu â Seisnigrwydd cynyddol Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru, enciliodd yn raddol o fywyd cyhoeddus. Bu farw Arglwyddes Llanofwr yn ei chartref ar 17 Ionawr 1896 a chladdwyd hi ym meddrod y teulu ym mynwent eglwys St Bartholomew, Llanofwr. Ceir adroddiadau o'i chynhebrwng a'r prosesion o gannoedd o alarwyr mewn sawl papur newydd â'r ffocws ar nodweddion Cymreig a'r defnydd o'r Gymraeg yn y seremoni.

Yr unig blentyn o'r briodas a fu fyw oedd Augusta Charlotte Elizabeth Herbert (1824-1912), a briododd Arthur Jones o Lanarth yn Sir Fynwy (o hen deulu Pabyddol a gymerodd yr enw Herbert ym 1848) ar 12 Tachwedd 1846. Efelychodd ei mam fel noddwraig y diwylliant Cymreig. Roedd yn rhugl ei Chymraeg a mabwysiadodd yr enw barddol 'Gwenynen Gwent yr Ail', gan groesawu beirdd ac ysgolheigion i Llanover o'r 1890au, yn eu plith y cenedlaetholwyr, beirdd a Phan-Geltaidd François Jaffrennou, Émile Hamonic a Theodore Botrel. Parhaodd y traddodiad o hyrwyddo'r delyn deires. Ym 1902 noddodd gyhoeddi y *Manual of Methods of Instruction for playing the Welsh Harp* gan Ellis Roberts (Eos Meirion, 1819-1873), y llawlyfr cyntaf ar gyfer dysgu canu'r delyn deires. Perfformiodd ei 'Côr o Delynau Teires' mewn eisteddfodau o gwmpas 1900 ac yng Nghyngres Geltaidd Caernarfon, 1904. Ei mab, yr uwch-frigadydd Syr Ivor Herbert (1851-1934), barwn Treowen o 1917, a gyflwynodd gasgliad helaeth Arglwyddes Llanover, Llawysgrifau Llanover, i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, sy'n ffynhonnell werthfawr hyd heddiw.

## Awdur

Marion Löffler

## Ffynonellau

[HALL, BENJAMIN](#), *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (1953)

Geraint Bowen a Zonia Bowen, *Hanes Gorsedd y Beirdd* (1991)

Osian Ellis, *The Story of the Harp in Wales* (1991)

Helen Forder, *High Hats and Harps. The Life and Times of Lord and Lady Llanover* (2012)

Maxwell Fraser, '[Lord and Lady Llanover, 1862-1863](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 16/2 (1969), 105-22

Maxwell Fraser, '[Lady Llanover and her Circle](#)', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1968; rhan 2), 170-96

Maxwell Fraser, '[Sir Benjamin and Lady Hall at Home in the 1850s Part I](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 14/3 (1966), 285-300

Maxwell Fraser, '[Sir Benjamin and Lady Hall at Home in the 1850s Part II](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 14/4 (1966), 437-50

Maxwell Fraser, '[Sir Benjamin and Lady Hall in the 1840s Part I](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 14/1 (1965), 35-52

Maxwell Fraser, '[Sir Benjamin and Lady Hall in the 1840s Part II, 1846-9](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 14/2 (1965), 194-213

Maxwell Fraser, '[Benjamin and Augusta Hall, 1831-6](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 13/3 (1964), 209-23

Maxwell Fraser, 'Child prodigies at Llanover', *Presenting Monmouthshire* 16 (1963), 30-5

Maxwell Fraser, '[Young Mr and Mrs Hall, 1823-30](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 13/1 (1963), 29-47

Maxwell Fraser, '[The Girlhood of Augusta Waddington, 1802-29](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 12/4 (1962), 305-22

Maxwell Fraser, 'The Prince of Orange visits Llanover', *Presenting Monmouthshire* 13 (1962), 39-45

Maxwell Fraser, '[The Waddingtons of Llanover, 1791-1805](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 11/4 (1960), 285-329

Rachel Ley, *Arglwyddes Llanover: Gwenynen Gwent* (Caernarfon 2001)

Marion Löffler, '*A Book of Mad Celts*'. *John Wickens and the Celtic Congress of Caernarfon 1904* (2000)

Mair Elvet Thomas, *Afaith yng Ngwent: Hanes Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni* (Caerdydd 1978)

Mair Elvet Thomas, *The Welsh Spirit of Gwent* (Cardiff 1988)

David Thorne, '[Cymreigyddion y Fenni a dechreuadau ieitheg cymharol yng Nghymru](#)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 27/1 (1991), 97-107

Maria Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg* (1994)

*The Cardiff Times*, 25 Ionawr 1896

*South Wales Daily News*, 24 Ionawr 1896

## Darllen Pellach

Beryl H. Griffiths, *Mamwlad* (Gwasg Carreg Gwalch Llanrwst 2016), tt.37-58

Coflein: [Llanover House](#)

Leila Salisbury, 'Hall, Augusta (1802-96)', *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), tt.221-2

Casgliad y Werin Cymru: [Augusta Hall, Arglwyddes Llanofar \('Gwenynen Gwent'\) \(1802-1896\)](#)

Casgliad y Werin Cymru: ['Gwenynen Gwent'](#)

ODNB: [Hall \[née Waddington\], Augusta, Lady Llanover \(1802-1896\)](#)

[Genealogical memoranda relating to the families of Herbert & Hall \(1896\)](#)

Erthygl Wicipedia: [Augusta Hall, Arglwyddes Llanofar](#)

## Gweithiau

Augusta Hall, [NLW Drawing volume 299: Cambrian costumes dedicated to the nobility and gentry of Wales](#)

Augusta Hall, [Good cookery illustrated: And recipes communicated by the Welsh hermit of the cell of St. Gover \(London 1867\)](#)

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [NLW MS 15168D: Llawysgrifau cerddorol Llanofar](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 16075E: Welsh folk songs in the hand of Augusta Hall, Lady Llanover, etc.](#)

VIAF: [46249973](#)

Wikidata: [Q2870954](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2016-04-20

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

